

Fy Siwrnai LPS

BYDD FY SIWRNAIYN DECHRAU OS CREDIR Y GALL FOD GEN I DDIFFYG GALLUEDD I GYDSYNIO I'M GOFAL A'M TRINIAETH, AC Y GALL FOD GEN I ANHWYLDER MEDDYLIOL.

Mae'r gofal a'r driniaeth sy'n cael eu cynnig, neu yr wyf yn eu cael, yn golygu:

- 1) **fy mod neu y byddaf o dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus; AC**
- 2) **nad wyf yn rhydd i adael y man lle mae'r trefniadau'n digwydd; AC**
- 3) **nad oes gen i'r galluedd i gydsynio i'r gofal a'r driniaeth honno.**

Bydd Corff Cyfrifol yn gyfrifol am awdurdodi fy ngofal a'm triniaeth. Bwrdd iechyd neu awdurdod lleol fydd y corff hwn. Byddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd i benderfynu pwy sy'n gyfrifol, gan ddilyn egwyddor "dim drws anghywir".

A oes ffrind neu berthynas a all fy helpu fel Person Priodol?

OES

Bydd y Corff Cyfrifol yn sicrhau bod fy Mherson Priodol yn rhan o'm siwrnai LPS ac yn darparu IMCA iddo os oes angen.

NAC OES

A oes angen Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) arnaf i (neu fy Mherson Priodol)? Os oes, bydd un yn cael ei benodi gan y Corff Cyfrifol.

Bydd y Corff Cyfrifol yn **YMGYNGHORI** ag unrhyw un o'm dewis, ee ffrindiau/teulu/gofalwyr di-dâl.

Bydd y Corff Cyfrifol yn sicrhau fy mod i **A / NEU** fy Mherson Priodol yn deall y broses LPS.

Asesiadau a Phenderfyniadau gan broffesiynolion ar yr amodau Awdurdodi.

A oes gen i ddiffyg galluedd i gydsynio i'r trefniadau? AC

A oes gen i anhwylder meddyliol? AC

A yw'r trefniadau'n angenrheidiol ac yn gymesur?

Mae ateb negyddol i unrhyw un o'r cwestiynau hyn yn golygu bod angen adolygu'r trefniadau gofal, cymorth neu driniaeth.

Ydw i'n gwrthwynebu'r trefniadau, neu'n peidio â chydysynio iddyn nhw, neu a yw hi'n rhesymol meddwl y gallwn i wneud hynny? Neu ai trefniadau mewn ysbyty annibynnol yw'r rhain?

Y Corff Cyfrifol yn penodi Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy (AMCP).

Yr AMCP yn cyfarfod â mi a/neu fy Mherson Priodol.

Yr AMCP yn cynnal Adolygiad Cyn-awdurdodi.

Y Corff Cyfrifol yn trefnu Adolygiad Cyn-awdurdodi.

A yw'r Asesiadau a'r Penderfyniadau yn dangos bod yr amodau Awdurdodi wedi'u bodloni?

Yr Awdurdodiad yn cael ei roi neu ei adnewyddu gan y Corff Cyfrifol (gall fy ngofal neu driniaeth ddechrau neu barhau).

Peidio â rhoi neu adnewyddu'r Awdurdodiad (ystyried trefniant arall ar gyfer fy ngofal, fy nghymorth a'm triniaeth).

Cofnod Awdurdodiad i'w anfon ataf ac, os yw hynny'n berthnasol, at fy IMCA a'm Person Priodol o fewn 72 awr.

Adolygu'r cynllun gofal, cymorth a thriniaeth yn rheolaidd.

Adnewyddu'r Awdurdodiad.

Amrywio'r Awdurdodiad.

Diwedd yr Awdurdodiad.

Adolygu'r Awdurdodiad.

Adolygu fy nhrefniadau gofal, cymorth neu driniaeth.

MONITRO AC ADRODD